Cynllun Hyfforddi Partneriaeth Pensiwn Cymru 2020/2021

Cefndir a Rhagarweiniad

Mae'n rhaid i weithwyr y Bartneriaeth fod â:

- Gwybodaeth a dealltwriaeth briodol o:

  -y rheoliadau a'r marchnadoedd sy'n gysylltiedig â'r Cynllun Pensiynau Llywodraeth Leol;

  -cyfuno Cronfeydd Pensiwn Llywodraeth Leol Cymru;

  -cyfleoedd buddsoddi perthnasol.

Lluniwyd cynllun hyfforddiant y Bartneriaeth yn atodol at gynlluniau hyfforddiant cyfredol yr Awdurdodau Cyfansoddol. Bydd anghenion hyfforddiant ar lefel leol yn dal i gael sylw gan Awdurdodau Cyfansoddol, tra bydd cynllun hyfforddiant y Bartneriaeth yn cynnig hyfforddiant sy'n berthnasol i weithgareddau'r Bartneriaeth ynghylch cyfuno cronfeydd.

Dylai staff y Bartneriaeth fagu gwybodaeth a dealltwriaeth ddigonol i sicrhau y medrant gyflawni eu dyletswyddau sy'n gysylltiedig â'r Bartneriaeth.

Dylai'r staff hefyd fod yn ymwybodol o fframwaith y Bartneriaeth, ei chredoau, ei pholisïau a'i matrics llywodraethu, ynghyd â'r broses benderfynu a'r drefn o gofnodi penderfyniadau.

Awgrymir bod staff newydd y Bartneriaeth yn cwblhau hyfforddiant cyflwyno ffurfiol i gyrraedd y lefel o wybodaeth a nodir uchod. Yn dilyn hyfforddiant cyflwyno, mae disgwyl i staff gynnal eu dealltwriaeth o'r eitemau a nodir uchod, gan gwblhau unrhyw hyfforddiant ychwanegol yn ôl yr angen.

I gynorthwyo staff y Bartneriaeth, bydd yr Awdurdod Lletya yn trefnu sesiynau hyfforddiant chwarterol a fydd yn ymdrin â'r prif feysydd megis buddsoddi, gweinyddu, anghenion rheoleiddio, canllawiau'r Llywodraeth a datblygiadau'r farchnad. Noder y bydd yr Awdurdod Lletya yn cadw cofnod dan y cynllun hyfforddiant a fydd yn cynnwys manylion cyfredol o'r holl hyfforddiant y mae staff y Bartneriaeth wedi'i gwblhau, a'r hyfforddiant y bwriedir ei gynnal yn y dyfodol agos.

Isod, nodir rhestr o bynciau y bydd yr Awdurdod Lletya yn trefnu hyfforddiant ar eu cyfer dros weddill blwyddyn ariannol 2020/2021. Mae'r pynciau isod yn seiliedig ar yr ymatebion a dderbyniwyd drwy holiadur anghenion hyfforddiant y Bartneriaeth ar gyfer 2019/20. Noder y cyflwynir yr holiadur hwn i'r Cydbwyllgor Llywodraethu a'r Gweithgor Swyddogion bob blwyddyn.

Yn bennaf, bydd digwyddiadau hyfforddiant y Bartneriaeth yn canolbwyntio ar fodloni anghenion hyfforddiant aelodau'r Gweithgor Swyddogion a'r Cydbwyllgor; fodd bynnag, anogir yr Awdurdodau Cyfansoddol i wahodd Cadeiryddion eu Pwyllgorau Pensiynau hwythau, yn ogystal â Chynrychiolwyr y Bwrdd Pensiynau, os credant y byddai'r hyfforddiant o fudd i'r unigolion hynny.

Hyfforddiant Unigol

Mae'n bwysig bod unigolion yn meddu ar lefel 'briodol' o wybodaeth a dealltwriaeth o'r gweithgareddau sy'n berthnasol i'w dyletswyddau o fewn y Bartneriaeth, ac yn cynnal y lefel hwnnw.

Yr arfer orau yw bod unigolion yn adolygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth eu hunain bob blwyddyn o leiaf, ac ymgymryd â dysgu pellach ar gyfer unrhyw feysydd a nodwyd fel rhai sydd angen sylw neu ddatblygiad pellach. Dylai unigolion ystyried eu hanghenion dysgu a chofnodi unrhyw weithgaredd hyfforddiant a gwblhawyd, a hysbysu'r Awdurdod Lletya, a fydd yn cynorthwyo'r broses hon drwy ddarparu holiadur anghenion hyfforddiant blynyddol.

Hyfforddiant

Pwnc	Cyflwynydd yr Hyfforddiant	Dyddiad
Monitro		
• Rheoli Gwrthdaro Buddiannau	Hymans Robertson	Ch1 Ebrill - Mehefin 2020
• Monitro gan y Gweithredwr	Hymans Robertson	
• Metrigau perfformiad (gan gynnwys metrigau Incwm Gweddilliol)	Link / Russell Investments / Rheolwyr Buddsoddi a Hymans Robertson	
Deall y Farchnad		
• Cynnydd Cronfeydd Cynlluniau Pensiwn Llywodraeth Leol eraill a gyfunwyd	Hymans Robertson a Chyrff Allanol	Ch2 Gorffennaf - Medi 2020
• Cyfleoedd i Gydweithio	Hymans Robertson a Chyrff Allanol	
• Risg Hinsawdd	Hymans Robertson	
• Dosbarthiadau Asedau - Dulliau gwahanol	Link / Russell Investments / Rheolwyr Buddsoddi a Hymans Robertson	
Y Broses Adolygu		
• Cofnodi Penderfyniadau	Yr Awdurdod Lletya a Hymans Robertson	Ch3 Hydref – Rhagfyr 2020
• Adnabod Gwersi i'w Dysgu	Yr Awdurdod Lletya a Hymans Robertson	
Gofynion Rheoleiddio		
• Gofynion Tryloywder	Hymans Robertson a Chyrff Allanol	Ch4 Ionawr - Mawrth 2021
• Gweithredu Canllawiau a Rheoliadau	Hymans Robertson	